**Agenda Eitem Rhif 2(a)**

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russel, Ffordd Churton, y Rhyl ddydd Mawrth 12fed Hydref 2004 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr M M Jones (Cadeirydd), G C Evans, C L Hughes, G A Jones, D Owens a G J Pickering

**Yn Cynrychioli Cydbwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych**

I Barros-Curtis, M Bradshaw ac M B Lloyd

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

M Colbert, Parch. P J Collinson, H Ellis, M Evans, S Harris, B H Jones, J Kirkham, Parch J Owen a P Speirs

**Aelodau Cyfetholedig**

T Ap Siôn (dirprwy dros y Parchedig Athro L J Francis)

### HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, Swyddog Addysg (T Jones) a Swyddog Gweinyddol (K E Jones)

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

T Bryer, M Evans, J Hannam, yr Athro L J Francis, y Chwaer Elizabeth Kelly a'r Cynghorwyr K N Hawkins ac N Hugh-Jones

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Maxine Bradshaw a Brian Huw Jones a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf. Eglurodd y Cadeirydd y byddai Brian Huw Jones yn cymryd lle'r Parchedig John Owen a oedd yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r Parchedig Owen am ei gyfraniad gwerthfawr i CYSAG.

**276 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Gorffennaf 2004 (a rannwyd o'r blaen) ac a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 21ain Medi 2004.

**Materion yn Codi**

Tudalen 3 – Eitem Rhif 2 Fframwaith Ddrafft ar gyfer Dysgu Plant yn y Cyfnod Sylfaen – Nododd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod ACCAC wedi nodi'r sylwadau a gyflwynwyd iddynt ynghylch y fframwaith ar gyfer y cyfnod sylfaen ac roedd y drafft diweddaraf wedi'i wella'n sylweddol yn nhermau ei elfennau Addysg Grefyddol. Hwyrach yr adolygir y drafft ymhellach ar ôl y prosiect peilot. Hysbyswyd yr aelodau hefyd y gofynnwyd i'r awdurdod lleol a fyddai'n bosibl cyllido gweithgor i ystyried yr anghenion newydd ar gyfer addysg plant.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfieithiad Cymraeg y cofnodion yn cyfeirio at “SACRE’ yn hytrach na “CYSAG” gydol y ddogfen a gofynnodd i’r camgymeriad gael ei nodi ar gyfer cyfieithiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**277 ASTUDIAETHAU CREFYDDOL AS / A2 CYD BWYLLGOR ADDYSG CYMRU - CYNNWYS Y FANYLEB**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol lythyr (a rannwyd o’r blaen) oddi wrth Gyd Bwyllgor Addysg Cymru mewn ymateb i bryderon CYSAG ynghylch anghydbwysedd yng nghynnwys ac mewn arholiadau Astudiaethau Crefyddol AS / A2.

Tynnodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sylw at brif bwyntiau’r llythyr, gan gyfeirio’n benodol at yr ymatebion canlynol:-

- roedd pob un o’r tîm o arholwyr a baratôdd y fanyleb yn fodlon fod pob uned AS yr un mor anodd a’u gilydd ac roedd y Cyrff Rheolaethol wedi derbyn y fanyleb;
- chwiliwyd am, a chaed, cysondeb yn y broses marcio;
- roedd llai yn astudio’r Testament Newydd ledled y byrddau arholi gydag astudiaethau Beiblaidd yn llai poblogaidd yn gyffredinol. Fodd bynnag roedd gan Gyd Bwyllgor Addysg Cymru fwy yn cymryd Astudiaethau Crefyddol, ac
- nid oedd Cyd Bwyllgor Addysg Cymru’n ymwybodol fod unrhyw gorff dyfarnu’n cynnal cyfweliadau gadael nac yn defnyddio holiaduron ond cytunodd i godi’r mater gyda’r Cyfarwyddwr Arholiadau.

Nododd yr Aelodau’r atebion llawn a manwl yn y llythyr mewn ymateb i’r cwestiynau a godwyd a chydnabod, ar ol codi’r mater yng Nghymdeithas CYSAG Cymru ac mewn Hyfforddiant Mewn Swydd, y gwnaed rhai newidiadau a allai liniaru rhai o’r pryderon a fynegwyd ynghylch cynnwys y fanyleb.

Dywedodd Mrs M B Lloyd wrth yr aelodau y ceir cyflwyniad gan Tudor Thomas o Gyd Bwyllgor Addysg Cymru’n yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAG Cymru ac efallai y bydd y mater yn derbyn sylw pellach.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi’r llythyr oddi wrth Gyd Bwyllgor Addysg Cymru.*

**278 FFORWM FFYDD IEUENCTID**

Rhoddodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad llafar ynghylch y trafodaethau hyd yn hyn mewn ymateb i gais CYSAG i gynnal Fforwm Ffydd Ieuenctid yn Sir Ddinbych.

Roedd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedi cyfarfod gyda nifer o athrawon a chyda’r Swyddog Ieuenctid dros Sir Ddinbych, Mr Garth Thomas ac wedi ystyried nifer o bosibiliadau ar gyfer y Fforwm Ffydd Ieuenctid arfaethedig. Y prif bryder oedd y gost, megis cludo disgyblion, cyflenwi athrawon llanw, lleoliad ayb. Gwnaed bid am arian grant arbennig a ddyrennir ar gyfer prosiectau ieuenctid yn y Rhyl a Phrestatyn ond, hyd yn oed pe byddai’r bid yn llwyddiannus, ni fyddai digon o gyllid ar gael i dalu’r prif gostau o gyflenwi athrawon llanw a chludiant. Yn ogystal, byddai raid cynnal y Fforwm Ffydd Ieuenctid naill ai yn y Rhyl neu ym Mhrestatyn pe ceid y cyllid. Cynhelir cyfarfod pellach ynghylch y mater yn hwyrach yn yr wythnos pan obeithir gwneud cynnydd pellach. Cytunwyd mewn egwyddor y dylai credoau eraill yn y gymuned gymryd rhan arweiniol yn ogystal â phobl ifanc Cristnogol a bod llawer mwy o faterion i’w hystyried a’i harchwilio.

Dywedodd y Cynghorydd G A Jones y gallai arian Partneriaeth Ardal fod ar gael ar gyfer prosiect fel hwn ac awgrymodd y gallai’r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gysylltu â’r Rheolwr Partneriaeth Ardal perthnasol yn uniongyrchol yn ei gylch.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r cynnydd hyd yn hyn ac yn gobeithio derbyn rhagor o wybodaeth yn eu cyfarfod nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei waith gyda'r prosiect hwn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn adroddiad llafar yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.*

**279 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Sir Ddinbych 2003 - 2004 (a rannwyd o'r blaen) yn crynhoi gweithgareddau CYSAG Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y Maes Llafur a Gytunwyd, Safonau mewn Addysg Grefyddol, Cyd Addoli / Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol, Darparu Hyfforddiant Mewn Swydd a nifer o faterion eraill.

Arweiniodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau'n gryno drwy'r adroddiad gan gyflwyno sylwadau ynghylch y materion canlynol:-

- (b) Safonau mewn Addysg Grefyddol – barnwyd pob un o'r pedair ysgol ar ddeg yn foddhaol neu'n well gyda rhestr hir o ganmoliaeth positif a chyda dim ond materion allweddol bychan ar gyfer gwelliant;

- (c) Cyd Addoli / Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol – barnwyd pob ysgol yn foddhaol neu well gyda llawer o sylwadau positif a chyda dim ond ychydig o ddiffygion bychain na fyddai'n anodd talu sylw iddynt, a

- (d) Darpariaeth Hyfforddiant Mewn Swydd – nodwyd fod llai yn mynychu cyrsiau gan fod prinder arian ar gyfer darparu hyfforddiant mewn swydd. Nododd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai dim ond ychydig o Hyfforddiant Mewn Swydd a ddarparwyd eleni gyda rhywfaint o hyfforddiant mewn 'sesiynau cyfnos' oherwydd diffyg cyllid. Eglurodd y Swyddog Addysg y ceir cyllid oddi wrth y Cynulliad Cendlaethol ar gyfer darparu Hyfforddiant Mewn Swydd ond yr effeithiwyd ar hyn gan gytundeb y Cyfnod Sylfaen a llwyth gwaith. Cadarnhaodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y cynhelir cyfarfod rhwng y tri Awdurdod Addysg Lleol sy'n rhannu'r Cefnogaeth Cwricwlwm i drafod y ffordd ymlaen o ystyried na fyddai'r sefyllfa'n well y flwyddyn nesaf ac y dylid ystyried darparu Hyfforddiant Mewn Swydd yng nghyd-destun materion ehangach.

Yn olaf, gofynnodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i'r aelodau ddiystyru'r cyfeiriad at Atodiad 5 a oedd wedi'i gynnwys mewn camgymeriad a dywedodd y byddai'r tudaleniad a'r gosodiad wedi'u gwella cyn yr anfonir yr adroddiad i'r ysgolion.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd yr aelodau'r pwyntiau canlynol:-

- dylid ychwanegu Peter Speirs at restr aelodaeth CYSAG Sir Ddinbych.

- dylid diwygio aelodaeth ar gyfer cynghorwyr i ddarllen 'o a than Fehefin 2004';

- collwyd rhywfaint o ystyr a synnwyr yr adroddiad wrth gyfieithu'r ddogfen yn llythrennol.

Nododd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sylwadau'r aelodau a chytunodd i drefnu fod cyfieithiad Cymraeg y ddogfen yn cael ei ail wirio. Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth Mr P Speirs, adroddodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar y gwaith a wnaed i feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion yn Uganda ac ysgolion Sir Ddinbych.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y gwaith a wnaeth ar gyfer CYSAG Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn a:-

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG.*

**280 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a rannwyd o'r blaen) ar sylwadau positif a negyddol ynghylch Addysg Grefyddol a Datblygu Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol yn codi o adroddiadau'r chwe ysgol gafodd eu harchwilio rhwng Rhagfyr 2003 a Mehefin 2004 ynghyd â chefndir byr o bob ysgol. Gofynnodd i'r aelodau anwybyddu'r canfyddiadau ynghylch Ysgol Llanefydd a oedd wedi'u cynnwys mewn camgymeriad ac ymddiheurodd am unrhyw anghyfleustra a achoswyd.

Archwiliwyd yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol y Parc, Dinbych
- Ysgol Bryn Collen, Llangollen
- Ysgol Maes Hyfryd, Cynwyd
- Ysgol Gellifor, Gellifor
- Ysgol Santes Brîd, Dinbych
- Ysgol Frongoch, Dinbych

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol grynodeb byr o'r canfyddiadau ar gyfer pob ysgol, gan fanylu ar faterion penodol mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth yr aelodau. Roedd yn falch o adrodd fod llawer iawn mwy o sylwadau positif yn adroddiad archwilio pob ysgol na sylwadau negyddol, gyda 125 cymeradwyaeth benodol ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a 115 cymeradwyaeth benodol ar gyfer Addysg Grefyddol. Roedd yn braf nodi hefyd nad oedd unrhyw ddiffygion sylweddol mewn unrhyw un o'r ysgolion a gafodd eu harchwilio.

Yn unol â'r ymarfer cyffredin cadarnhaodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr ysgrifennir at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar eu hadroddiadau ac i gynnig gwasanaethau er mwyn iddynt allu talu sylw i unrhyw ddiffygion. Roedd yr aelodau wrth eu bodd gyda chanfyddiadau positif yr adroddiad ac yn fodlon gyda'r gwaith a wneir i ateb yr ychydig o ddiffygion a danlinellwyd gan yr archwiliad. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith caled a wneir yn yr ysgolion ac roedd yn falch fod y llwyddiant hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau archwilio. Talodd yr aelodau deyrnged hefyd i waith yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth gefnogi ysgolion Sir Ddinbych.

Cyfeiriodd Mrs I Barros-Curtis at archwiliad a wnaed yn Ysgol Plas Brondyffryn ym mis Mai 2004. Cadarnhaodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y ystyrir adroddiad archwilio'r ysgol honno yng nghyfarfod nesaf CYSAG.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad.*

**281 ADRODDIAD ADOLYGU CEFNOGAETH A MONITRO**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a rannwyd o'r blaen) ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Prestatyn sy'n cynnwys Ysgol Uwchradd Prestatyn a'r ysgolion bwydo canlynol: Ysgol Gynradd Penmorfa, Ysgol Gynradd Bodnant, Ysgol Babanod Bodnant, Ysgol Melyd ac Ysgol Hiraddug, Dyserth.

Atgoffodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau am y trefniadau newydd ar gyfer monitro darpariaeth Addysg Grefyddol yn dilyn y newidiadau diweddar i broses archwilio ESTYN. Yn dilyn ymweliadau gan yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor yr haf, cytunwyd ar adroddiad ynghylch yr ymweliadau, materion yn codi a chanlyniadau gyda'r ysgol. Cafwyd manylion yn yr adroddiad o'r nodweddion da, y diffygion a'r argymhellion ar gyfer pob ysgol ynghyd â chrynodeb o'r consortiwm cyfan. Dywedwyd wrth yr aelodau fod llawer i'w ddathlu yn nhermau'r nodweddion da yn ysgolion y consortiwm, yn enwedig:-

- Lefelau'r cynllunio ac ansawdd y cynlluniau gwaith
- Rhychwant da o weithgareddau a thasgau gan y disgyblion
- Statws y pwnc neu agwedd y staff a'r disgyblion tuag ato
- Monitro a gwerthuso gwaith, cynlluniau a gweithgareddau
- Y defnydd o, a chefnogaeth, cymunedau ffydd lleol

Roedd yn werth nodi mai diffygion ynghylch materion unigol mewn ysgolion unigol a nodwyd yn bennaf ac, ers paratoi'r adroddiad, y talwyd sylw i'r materion penodol hynny mewn rhai ysgolion. O gofio mai unigol iawn oedd y diffygion, canolbwyntiwyd yn yr argymhellion ar yr agweddau unigol hynny mewn ysgolion. Fodd bynnag, cyfeiriwyd sawl gwaith y dylid parhau i gynnal ymarfer da.

Ar y cyfan nododd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei fod wedi cael y broses yn brofiad positif iawn ac roedd yr aelodau'n falch o nodi'r gwaith da a wnaed wrth ddarparu Addysg Grefyddol yn yr ysgolion hynny. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol. Soniodd am yr amser a dreuliodd yn yr ysgolion unigol yn ystod y broses adolygu ac am ymateb yr ysgolion i'r trefniadau newydd. Wrth sôn am sylwadau'r disgyblion ar Addysg Grefyddol, dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol nad oedd proses ffurfiol yn bodoli ar gyfer siarad gyda disgyblion yn ystod yr adolygiad ond y byddai'n bosibl ei ystyried wrth ymweld ag ysgolion yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau'n falch o'r trefniadau newydd fel ffordd ymlaen o gofio'r newidiadau a wnaed i'r broses archwilio a thalwyd teyrnged i'r gwaith ychwanegol a wnaed gan yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ynghylch hyn a'r gefnogaeth barhaol a gynigir ganddo i bob ysgol. Adleisiodd y Swyddog Addysg y teimladau hynny gan ddweud fod ysgolion ac athrawon yn dibynnu ar arbenigedd a chefnogaeth yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth ddarparu Addysg Grefyddol.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad.*

**282 ACCAC - LANSIO DEUNYDD ASESIAD DEWISOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL**

Gofynnodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am dri enwebiad (un o bob grwp a gynrychiolir) o CYSAG Sir Ddinbych i fynychu lansiad deunydd asesiad dewisol newydd ACCAC ar gyfer Addysg Grefyddol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ar 1af Rhagfyr 2004 yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod.

Ar ôl ystyried:-

***PENDERFYNWYD** enwebu'r Cadeirydd, y Cynghorydd M M Jones, Mrs M B Lloyd a Mr B H Jones i fynychu lansiad deunydd asesiad dewisol newydd ACCAC ar 1af Rhagfyr 2004.*

**283 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 23ain Mehefin 2004 yn Swyddfa'r Sir, Llangefni er gwybodaeth i'r aelodau. Roedd Mrs M B Lloyd wedi cyflwyno adroddiad llafar ar hyn i gyfarfod diwethaf CYSAG.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 23ain Mehefin 2004.*

**284 DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10.00am ddydd Iau, 3ydd Chwefror 2005 yn Siambr y Cyngor, Ty Nant, Ffordd Llys y Nant, Prestatyn.

Ar yr adeg yma awgrymodd y Parch J Owen, er lles yr aelodau newydd, y byddai'n ddefnyddiol pe defnyddid y byrfoddau'n llawn nes bod yr aelodau'n gyfarwydd â'u hystyr.

Wrth gloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, i gyfieithydd y pwyllgor ac i Glerc CYSAG am eu gwaith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am.

*********

**Agenda Eitem Rhif 5**

**SYLWADAU AR Y CYD-DESTUN: ADRODDIADAU ARCHWILIAD CYSAG SIR DDINBYCH**

+

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Archwilydd Crefyddol</th><th>Archwilydd YMCD</th><th>Archwilydd Addysg Grefyddol</th></tr>
<tr><td>Ysgol Betws Gwerful Goch</td><td>17 - 19 Mai 2004</td><td>Mr D G Evans</td><td>Mr D G Evans</td><td>Mrs Rh Steeds</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Betws Gwerful Goch yn ysgol gymunedol. Ar hyn o bryd mae ganddi 55 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys wyth o oedran meithrin. Ar ddiwrnod yr archwiliad ym mis Mehefin 1998, roedd 31 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw'r disgyblion o ardal drigiannol nad yw'n ffyniannus nad yn dioddef o amddifadedd economaidd. Mae gan naw y cant o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae naw disgybl ar y gofrestr gydag anghenion addysg arbennig, mae gan ddau ddatganiad o anghenion addysg arbennig.<br>Daw pedwar deg tri y cant o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith, ond mae 65 y cant yn gallu siarad yr iaith fel iaith gyntaf neu i safon debyg.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Plas Brondyffryn</td><td>17 – 20 Mai 2004</td><td>Mr H J Phillips</td><td>Mr H Evans</td><td>Mr H Evans</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol ddyddiol gymysg ac ysgol breswyl arbennig ar gyfer disgyblion o dair oed i bedwar ar bymtheg mlwydd oed gydag anhwylderau sbectrwm awtistig. Mae graddfa eu hanawsterau dysgu'n amrywio o ganolig i ddwys, gan gynnwys y rhai gydag anawsterau cyfathrebu dwys, rhai gydag ymddygiad heriol ac eraill gydag anawsterau cymdeithasol a phersonol. Nodwyd fod nifer sylweddol o ddisgyblion gyda Syndrom Asperger. Ar adeg yr archwiliad roedd 112 o ddisgyblion ar y gofrestr, 95 o fechgyn ac 17 o ferched. Daw disgyblion i'r ysgol o awdurdodau addysg ledled Gogledd Cymru ac awdurdodau cyfagos yn Lloegr. Mae darpariaeth addysgol ar gael ar dair safle; Plas Brondyffryn, hen faenordy gwledig; ysgol uwchradd newydd wedi'i hadeiladu'n pwrpasol ynghlwm ag Ysgol Uwchradd Dinbych a Rock House, yng nghanol y dref, yn darparu dosbarthiadau ar gyfer y myfyrwyr ôl 16. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth breswyl ar gyfer disgyblion hyn yn Ty'n Fron. Ar adeg yr archwiliad roedd cyfanswm o 28 o ddisgyblion yn breswyl.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llanfair DC</td><td>14 – 16 Mehefin 2004</td><td>Mr D G Evans</td><td>Mr D G Evans</td><td>Mr D G Evans<br>Parch T Roberts (Adran 23)</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Llanfair DC yn ysgol gynradd gymunedol ddwyieithog. Ar hyn o bryd mae 73 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 13 o oedran meithrin. Ar adeg yr archwiliad diwethaf yn nhymor yr hydref 1998, roedd 64 disgybl llawn amser ac wyth yn rhan amser ar y gofrestr. Ers mis Medi 2003, mae'r ysgol wedi cael ei harwain gan bennaeth dros dro tra bo'r pennaeth parhaol ar secondiad. Daw'r disgyblion o ardaloedd trigiannol nad ydynt</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5">yn ffyniannus nac yn dioddef o amddifadedd economaidd.  Mae gan dri ar ddeg y cant o’r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim.  Mae 20 disgybl (33 y cant) ar gofrestr anghenion addysg arbennig yr ysgol ac mae gan un datganiad o anghenion addysg arbennig.  Saesneg yw prif iaith y cartref  y mwyafrif o ddisgyblion (tua 80 y cant).</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Prestatyn</td><td>4-8 Hydref – 2004</td><td>Mr T O’Marah</td><td>Q1 - Mr T O’Marah</td><td>Nid yw Addysg Grefyddol wedi’i gynnwys yn yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cael ei chynnal gan yr awdurdod.  Mae’n ysgol gyfun gyfrwng Saesneg i blant oedran cymysg 11 – 18.  Fis Ionawr 2004 roedd 1,721 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 1,463 ar adeg yr archwiliad blaenorol fis Ionawr 1998.  Roedd 278 o ddisgyblion chweched dosbarth ar y gofrestr ym mis Ionawr 2004 o gymharu â 232 ym 1998.  Daw’r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol economaidd gyda thua chwarter yn dod o ardaloedd cymharol ffyniannus a chanran debyg o ardaloedd o dan anfantais economaidd.  Mae gan bron iawn 16% o’r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 hawl i brydau ysgol am ddim.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gartrefi ble mae’r Gymraeg yn brif iaith.  Mae llai na 2% o ddisgyblion yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol.  Yn 2003 / 4 roedd 265 o ddisgyblion ar gofrestr Anghenion Addysg Arbennig yr ysgol (15.4% o boblogaeth yr ysgol).  Roedd gan 53 o ddisgyblion datganiad o Anghenion Addysg Arbennig ( 3.1%)</td></tr>
</table>

**Dadansoddiad o Adroddiadau Archwiliad**
**CYSAG Sir Ddinbych**
**3ydd Chwefror 2005**

**4 Ysgol**

| **Enw'r Ysgol:** | **Dyddiad yr Archwiliad** | {0>**Archwilydd Crefyddol** | **Archwilydd YMCD** | **Archwilydd Addysg Grefyddol** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Betws Gwerful Goch | 17 - 19 Mai 2004} | Mr D G Evans | Mr D G Evans | Mrs Rh Steeds |
| Ysgol Plas Brondyffryn | 17 – 20 Mai 2004 | Mr H J Phillips | Mr H Evans | Mr H Evans |
| Ysgol Llanfair DC | 14 – 16 Mehefin | Mr D G Evans | Mr D G Evans | Mr D G Evans |
| | 24 25 & 28 Mehefin 2004 | | Adran 23 Parch Tegid Roberts | |
| *Ysgol Uwchradd Prestatyn | 4 - 8 Hydref 2004 | Mr T O'Marah | Mr T O'Marah | *Nid yw Addysg Grefyddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad |

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

***Crybwyllwyd mewn Materion Allweddol***
***3 Ysgol***

*Ateb y diffyg a nodwyd yn y pynciau, yn enwedig ble roedd y safonau'n foddhaol. (Ysgol Betws Gwerful Goch)*
*Ateb diffygion eraill a nodwyd yn yr adroddiad hwn, yn enwedig y ddarpariaeth ar gyfer cyd addoli yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. (Ysgol Plas Brondyffryn)*
*Parhau i ddatblygu'r ethos Gymreig drwy'r ysgol. (Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

Talu Sylw / Hyrwyddo Gwerthoedd / Moesau Da / Parch

*4 Ysgol*

- Mae'r staff yn hyrwyddo'n dda iawn safonau moesol a gwerthoedd ymysg y disgyblion. Mae pob unigolyn yn cael ei b / pharchu mewn awyrgylch gynnes a chartrefol. Mae ymddygiad y plant yn dda iawn; a'u presenoldeb yn dda.
  *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r ysgol yn daprau cwricwlwm llawn ac agweddau tuag at ddysgu sy'n cynnwys gwerthoedd Cristnogol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

- Mae'r disgyblion yn dangos parch a chwrteisi tuag at eu cyd ddisgyblion, tuag eraill a thuag at eiddo. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae ymdrechion da a chyraeddiadau'r disgyblion yn cael eu dathlu'n rheolaidd mewn gwersi mewn amryw o ffyrdd, yn ogystal â mewn cyd addoli gyda'r ysgol gyfan unwaith y tymor. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r disgyblion yn cael eu trin gydag urddas a pharch ac mae'r staff yn eu hannog yn gyson i ddeall y gwahaniaeth rhwng ymddygiad priodol ac amhriodol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Hyrwyddir agweddau a gwerthoedd cadarn. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae gwerthoedd Cristnogol yn cael eu cadarnhau'n rheolaidd mewn gwersi addysg grefyddol a gwaith y cwricwlwm (*Ysgol Llanfair DC)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo safonau moesol uchel. Mae'r disgyblion yn dangos parch a chwrteisi tuag at staff ac ymwelwyr. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Heb os, mae'r ysgol hon yn gwarchod ac yn hyrwyddo'i hethos Gristnogol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Mae safon ymddygiad y mwyafrif llethol o'r disgyblion yn dda, gyda'r disgyblion yn ymwybodol o'r safonau uchel a disgwylir ganddyn nhw. Mae'r disgyblion yn symud o amgylch yr ysgol mewn modd synhwyrol a threfnus, yn foneddigaidd, cwrtais a pharchus tuag at ei gilydd, yr athrawon a'r rhai nad ydynt yn staff dysgu. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

Darpariaeth ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol
3 Ysgol

- Mae datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion yn dda iawn.
  *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol tuag at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion. Mae'n un o gryfderau'r ysgol. *(Ysgol Llanfair DC)*

Cwricwlwm Cymreig / Ymwybyddiaeth o Gymreictod *3 Ysgol*

- Mae ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru'n cael ei hyrwyddo'n effeithiol iawn. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o'u treftadaeth a'u diwylliant eu hunain trwy'u hastudiaethau a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Urdd a digwyddiadau eraill yn y gymuned. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae ethos yr ysgol yn llwyddo i feithrin gwybodaeth y disgyblion o Gymru a'i diwylliant. Maen nhw'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau preswyl a chwaraeon yr Urdd yn ogystal â'r Eisteddfod Genedlaethol.
  *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

- Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu hymestyn fel maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau megis yr eisteddfod leol, y cwis llyfrau, yr Urdd a digwyddiadau eraill yn y gymuned. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru'n cael ei feithrin trwy'r gwersi a gweithgareddau all gwricwlaidd. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei wella gan y gweithgareddau all gwricwlaidd sy'n cael eu cynnig iddyn nhw gan y staff, megis yr Urdd ac eisteddfodau lleol, yn ogystal ag ymweliadau â lleoedd o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o Diwylliannau neu Thraddodiadau Eraill *3 Ysgol*

- Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda hefyd. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn cael ei hyrwyddo'n dda trwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud mewn addysg grefyddol, cerddoriaeth, celf a daearyddiaeth, er enghraifft. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae addysg aml ddiwylliant yn cael ei adlewyrchu mewn agweddau o waith mewn pynciau megis addysg grefyddol, cerddoriaeth a chelf ble mae'r disgyblion yn myfyrio ar ac yn gwerthfawrogi gwaith pobl o wahanol wledydd. Datblygir ymwybyddiaeth o'r dimensiwn Ewropeaidd trwy ieithoedd tramor modern, teithiau sgïo i'r Eidal a chefnogaeth i ysgol yn Nepal. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Hyrwyddir ymwybyddiaeth dda o ffydd a diwylliannau eraill mewn gwersi addysg grefyddol a gwaith y cwricwlwm. *(Ysgol Llanfair DC)*

Cyfraniad y Disgyblion i Gyd Addoli *3 Ysgol*

- Mae cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd rhan yn y gwasanaethau. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae cyd addoli yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn cynnwys cyfranogaeth gan ddisgyblion, amser priodol i fyfyrio a defnydd da o gerddoriaeth. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r disgyblion yn cael cyfle rheolaidd i gymryd rhan mewn gwasanaethau. Mae ansawdd eu cyfraniad yn dda. *(Ysgol Llanfair DC)*

Elusennau ac Achosion Da 3 *Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn gweithio'n ddyfal i godi arian tuag at elusennau ac achosion da. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Trwy eu cefnogaeth i nifer o elusennau lleol a chenedlaethol mae'r disgyblion yn datblygu synnwyr da o gyfrifoldeb tuag at eraill. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

- Mae elusennau dyngarol yn elwa o'u haelioni a haelioni'u rhieni. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn hon mae Apêl *Ty Gobaith Cymru, Apêl Ambiwlans Awyr, Plant Mewn Angen, Uned Gofal Babanod Ysbyty Glan Clwyd, Cronfa Lepra, Apêl Llid yr Ymennydd a'r Eglwys leol* wedi elwa o gyfraniadau ariannol y disgyblion a'u rhieni. Codwyd swm sylweddol o arian yn ystod Diolchgarwch y llynedd i gynorthwyo dau fachgen lleol a oedd yn wael. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Gweithgareddau / Cyfleoedd All Gwricwlaidd *3 Ysgol*

- Mae disgyblion o bob oedran a gallu cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau all gwricwlaidd sy'n cynnwys ymweliadau addysgiadol dyddiol a phreswyl. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r disgyblion yn falch o gynrychioli'u hysgol mewn rhychwant eang o weithgareddau mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae gweithgareddau all gwricwlaidd, ymweliadau â'r cysylltiad clos gyda'r gymuned leol yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei wella gan y gweithgareddau all gwricwlaidd sy'n cael eu cynnig iddyn nhw gan y staff, megis yr Urdd ac eisteddfodau lleol, yn ogystal ag ymweliadau â lleoedd o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Datblygu Cymdeithasol / Rhyngweithiad / Sgiliau Rhyngbersonol *3 Ysgol*

- Mae sgiliau cymdeithasol y disgyblion wedi'u datblygu'n dda iawn. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r mwyafrif llethol o ddisgyblion yn integreiddio'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol a'r gymuned leol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei wella gan y gweithgareddau all gwricwlaidd sy'n cael eu cynnig iddyn nhw gan y staff, megis yr Urdd ac eisteddfodau lleol, yn ogystal ag ymweliadau â lleoedd o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Cyfraniadau Pynciau Eraill i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol *3 Ysgol*

- Mae datblygiad ysbrydol a moesol yn cael ei hyrwyddo'n dda drwy bynciau'r cwricwlwm a bywyd cyffredinol yr ysgol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael ei ddatblygu trwy waith mewn addysg grefyddol, celf, Saesneg a gwyddoniaeth, ble maen nhw'n

yn datblygu synnwyr da o ryfeddod tuag at, a chywreinrwydd ynghylch, bywyd. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

- Cefnogir datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn bennaf drwy addoli'n ddyddiol a gwersi Addysg Grefyddol yn ogystal â thrwy'r Cwricwlwm yn gyffredinol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Polisi ar Hiliaeth / Hyrwyddo Cytgord Hiliol *3 Ysgol*

- Hyrwyddir cydraddoldeb hiliol a chyfleoedd cyfartal yn effeithiol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r athrawon yn cymryd mantais o bob cyfle i hyrwyddo cyd raddoldeb hiliol a chyfleoedd cyfartal. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r materion perthnasol i gyfleodd cyfartal a chydraddoldeb hiliol. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

Cyfleoedd am Gyfrifoldeb a Menter *2 Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn cymryd mantais o ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu'u synnwyr o gyfrifoldeb; mae'r rhain yn cynnwys integreiddio â'r ysgolion lleol, y coleg lleol, profiad gwaith a'r cyngor ysgol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da iawn i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae'r disgyblion hyn yn helpu'r rhai iau. *(Ysgol Llanfair DC)*

Ansawdd Cyd Addoli *2 Ysgol*

- Yng Nghyfnodau Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2, ceir cyd addoli gyda thema briodol o safon dda. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae ansawdd y cyd addoli bob amser yn dda iawn. Mae adnoddau digonol ar gael ar gyfer ei gyflwyno *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Cynllunnir yr holl gyd addoli'n ofalus a chedwir cofnod cynhwysfawr ohono. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Does dim neuadd yn yr ysgol i gynnal addoli, felly defnyddir dosbarth. Mae'r disgyblion yn dod i mewn i'r dosbarth yn drefnus ac yn eistedd ar y llawr yn wynebu bwrdd gyda channwyll ynghyn arno. Ar y wal o flaen y disgyblion mae darlun, rhai symbolau Cristnogol perthnasol a gweddïau wedi'u hargraffu'n gain sy'n cael eu defnyddio i ganolbwyntio sylw'r disgyblion yn ystod y gwasanaeth. Tra bo hyn yn digwydd, chwaraeir cerddoriaeth priodol, yn cael ei dilyn gan ennyd o fyfyrio distaw i osod naws ysbrydol ar gyfer yr addoli. Mae pob disgybl, o'r ieuengaf hyd yr hynaf, yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn addoliad wrth ddod i mewn i'r neuadd ar achlysuron o'r fath. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Mae safon y cyd addoli bob amser yn dda iawn. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Roedd y disgyblion yn gwrando'n astud iawn ac yn ymateb yn ddoeth i gwestiynau. Gadawodd y disgyblion y gwasanaeth yn yr un modd

disgybledig a distaw ag yr oeddynt wedi dod i mewn. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Ansawdd Perthynasau *2 Ysgol*

- Mae ansawdd perthynasau yn yr ysgol yn dda iawn. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae perthynasau ledled yr ysgol yn dda iawn. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Amcanion / Ethos Gyffredinol *2 Ysgol*

- Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gefnogol a chynhwysol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus, yn cydweithredu ac yn teimlo eu bod yn perthyn i gymuned glos. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Ceir arddangosfeydd niferus o amgylch yr ysgol yn cofnodi ymweliadau, gweithgareddau a llwyddiannau'r disgyblion sy'n creu awyrgylch dda iawn ar gyfer dysgu. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Dyma ysgol hapus ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr awyrgylch deuluol sydd ynddi, yn ogystal ag yn y ffordd mae'r staff a disgyblion yn ymateb i'w gilydd. Mae'r disgyblion yn gwrtais, yn gyfeillgar, yn groesawgar, yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd. Maen nhw wedi gwisgo'n daclus ac yn gwisgo'u gwisg ysgol liwgar gyda balchder. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Cyfraniad Cyd Addoli i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol *2 Ysgol*

- Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol yn dda trwy gyd addoli. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae cyd addoli'n cyfrannu'n tuag at datblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r ysgol yn darparu'r cwricwlwm cyfan yn ogystal ag agweddau tuag at ddysgu sy'n cynnwys gwerthoedd Cristnogol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae cyd addoli a gwersi addysg grefyddol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Cefnogir datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn bennaf trwy addoliad dyddiol a gwersi Addysg Grefyddol yn ogystal â thrwy'r Cwricwlwm yn gyffredinol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Datblygiad / Darpariaeth Moesol (a Chymdeithasol) *2 Ysgol*

- Mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

- Mae materion moesol a chymdeithasol yn cael eu hintegreiddio'n llwyddiannus i fywyd dyddiol yr ysgol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Cyfleoedd ar gyfer Cydweithredu / Cydweithio *2 Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd mewn modd hapus a chyfeillgar *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r gallu i weithio gydag eraill yn dda ar y cyfan. Mae'r disgyblion yn cydweithredu'n dda mewn nifer o sefyllfaoedd ble maen nhw'n ystyrlon, parchus a chefnogol tuag at ei gilydd yn gyffredinol. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

Cydymffurfio â Gofynion Statudol ar gyfer Cyd Addoli *2 Ysgol*

- Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â gofynion statudol. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae'r gofyn statudol am gyd addoli dyddiol yn cael ei gyfarfod yn llawn. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Cyfraniad Addysg Grefyddol i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Ddiwylliannol *2 Ysgol*

- Datblygir y disgyblion yn ysbrydol drwy waith mewn addysg grefyddol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae gwersi addysg grefyddol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Cefnogir datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn bennaf drwy addoli'n ddyddiol ac mewn gwersi Addysg Grefyddol yn ogystal â thrwy'r Cwricwlwm yn gyffredinol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Cysylltiadau â / Cyfranogi yn y Gymuned Leol *2 Ysgol*

- Mae'r mwyafrif llethol o ddisgyblion yn integreiddio'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol a'r gymuned leol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r ficer lleol yn cyfrannu i'r gwasanaethau'n rheolaidd ac mae cysylltiad yr ysgol gyda'r eglwys yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion ymhellach. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Ceir cysylltiad clos gyda'r gymuned leol sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae cysylltiadau clos rhwng yr ysgol a'r gymuned leol ac mae rhaglen eang o ymweliadau ac ymwelwyr i'r ysgol. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu hymestyn wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau megis yr eisteddfod leol, y cwis llyfrau, yr Urdd a digwyddiadau eraill yn y gymuned. *(Ysgol Llanfair DC)*

- Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr ysgol ac eglwys Anglicanaidd y plwyf sydd gyferbyn â hi. Cynhelir rhai o wasanaethau arbennig yr ysgol ynddi. Mae Rheithor y plwyf yn gyfaill da ac yn gefnogol i'r ysgol. Mae'n cyfrannu'n wythnosol nid yn unig i'r cyd addoli, ond hefyd i rai o'r gweithgareddau all gwricwlaidd. Mae'r Esgobaeth hefyd yn gefnogol iawn i'r ysgol trwy'i Swyddog Ysgolion ac Ymwelydd yr Esgob. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Mae'r bathodyn ar y wisg ysgol yn nodi'n glir gysylltiad clos yr ysgol gydag eglwys y plwyf. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Mae gan yr ysgol gysylltiad gwerthfawr gyda'r gymuned leol. Mae wedi gefeillio cysylltiad arbennig gyda'r Coleg Amaethyddol lleol sydd wedi arwain at sefydlu prosiect garddio penodol iawn, sydd nid yn unig yn cynnig profiadau addysgiadol eang iawn i'r disgyblion ar wahanol bynciau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ond sydd hefyd yn cynnwys y rheini a'r pentrefwyr fel ei gilydd. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Cyfleoedd i Fyfyrio *1 Ysgol*

- Mae cyd addoli yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn cynnwys cyfranogaeth gan ddisgyblion, amser priodol i fyfyrio a defnydd da o gerddoriaeth. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Dda a Drwg *1 Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn gwybod beth yw da a drwg. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Ymateb Disgyblion i Ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Ddiwylliannol *1 Ysgol*

- Roedd y disgyblion yn ymateb yn bositif i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer.
  *(Ysgol Llanfair DC)*

Cymeriad Cyd Addoli *1 Ysgol*

- Mae'n gwbl Gristnogol ac yn cynnwys elfennau o addoli Anglicanaidd. Mae'n unol â Dogfen Ymddiriedolaeth a Datganiad Ethos yr Ysgol *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*
- Seilir y cyd addoli ar themâu tymhorol yr ysgol dros gyfnod o ddwy flynedd. Cedwir holl brif Wyliau'r Eglwys gyda chanolbwynt ychwanegol ar bynciau perthnasol eraill megis da a drwg, cyfoeth a thlodi a'r storiâu'n gysylltiedig â rhai o'r cymwynaswyr mwyaf enwog a chymeriadau enwog o'r Ffydd Gristnogol. *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Datblygiad Ysbrydol *1 Ysgol*

- Mae cyd addoli'n cyfrannu'n tuag at datblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Datblygiad Diwylliannol *1 Ysgol*

- Yn ddiwylliannol, darperir ystod eang o weithgareddau ar gyfer y disgyblion, megis ymweliadau ag amgueddfeydd a safleoedd crefyddol a hanesyddol.
*(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Staff / Oedolion fel Modelau Rôl *1 Ysgol*

- Aelodau'r staff yn fodelau rôl da iawn *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Polisi ar Gyd Addoli *1 Ysgol*

- Ceir dogfen bolisi ar gyfer cyd addoli sy'n cynnwys amcanion clir ynghylch natur a phwrpas cyd addoli yn yr ysgol hon, gan gynnwys rhoi cyfle i'r disgyblion feddwl am werth gweddi a distawrwydd mewn addoli; ystyried materion ysbrydol a moesol a chadarnhau'r rhinweddau Cristnogol megis caredigrwydd, cariad, trugaredd, cyfiawnder a pharch tuag at gyd ddyn.
*(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

Rhaglen ar gyfer / Effaith Darpariaeth Personol a Chymdeithasol *1 Ysgol*

- Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Ystyried / Cysylltu Materion eu Bywydau Eu Hunain ag Eraill
*1 Ysgol*

- Ceir cyfle i ystyried materion sy'n berthnasol i'w bywydau eu hunain a rhai eraill. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

- Mae cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd rhan ac ystyried materion sy'n bwysig i'w bywydau eu hunain a rhai eraill.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Bwyta'n Iach / Materion Amgylcheddol / Cynaliadwyedd *1 Ysgol*

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy'i siop ffrwythau ac mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau a chynnal harddwch yr amgylchedd. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Gwaith / Cyfraniad Cyngor Ysgol *1 Ysgol*

- Yn barod mae gwaith y cyngor ysgol wedi sicrhau gwelliannau sylweddol i adeilad ac awyrgylch yr ysgol. *(Ysgol Llanfair DC)*

**SYLWADAU NEGYDDOL**

Cyfraniad Cyd Addoli i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol *1 Ysgol*

- Yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac ôl 16, ychydig iawn mae cyd addoli'n ei gyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Cydymffurfio â Gofynion Statudol ar gyfer Cyd Addoli *1 Ysgol*

- Arsyllwyd ar nifer o ddosbarthiadau ac ni fu unrhyw addoli. Nid yw hyn yn cyfarfod â gofynion statudol *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Polisi ar Gyd Addoli *1 Ysgol*

- Rhaid newid y ddogfen polisi ar gyfer cyd addoli er mwyn rhestru Gwyliau'r Eglwys yn eu trefn gywir gyda'r Adfent yn dod cyn y Nadolig a'r Grawys yn dod cyn y Past ar y rhestr honno.
  *(Ysgol Llanfair DC – Adran 23)*

**ADDYSG GREFYDDOL**

****Nid yw Addysg Grefyddol wedi'i gynnwys yn Adroddiad Ysgol Uwchradd Prestatyn***

Safonau Cyrhaeddiad *3 Ysgol*

- Mae'r safonau cyrhaeddiad yn foddhaol yng Nghyfnod Allweddo 1 a Chyfnod Allweddol 2. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae Addysg Grefyddol yn dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 1 *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae Addysg Grefyddol yn dda yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfod Allweddol 3 a Chyfod Allweddol 4 (dim graddfa ar gyfer darpariaeth ôl 16) *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae safonau cyrhaeddiad yn dda yn y ddau gyfnod allweddol *(Ysgol Llanfair DC)*

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Gristnogaeth *3 Ysgol*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn ymwybodol o arwyddocâd y Pasg a'r Nadolig a'u bod yn achlysuron ar gyfer dathliadau arbennig. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod fod pobl yn mynychu'r Capel ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau ac yn deall fod canu a gweddïo'n nodweddion addoli. Mae'r disgyblion yn awgrymu rhesymau priodol ar gyfer adrodd gweddiau 'diolch'. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

- Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 wybodaeth dda o’r prif symbolau a’r arteffactau a ddefnyddir mewn addoliad eglwysig. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, mae’r disgyblion yn ymestyn eu gwybodaeth o Gristnogaeth trwy ymweliadau â’r eglwys leol. Maen nhw’n gwybod am y dathliadau arbennig a gynhelir yn yr eglwys ac mae rhai’n cysylltu’r rhain yn dda gyda dathliadau yn yr eglwys gyda’u teuluoedd eu hunain. Maen nhw’n gwybod mai Cristnogaeth yw prif grefydd Prydain ac yn cysylltu pobl allweddol, gwrthrychau a digwyddiadau â’r grefydd.
*(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 wybodaeth dda o brif ddathliadau’r ffydd Gristnogol a phryd maen nhw’n digwydd yn y flwyddyn.
*(Ysgol Llanfair DC)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynnwys Crefyddau ar wahân i Gristnogaeth *3 Ysgol*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod hefyd am wyl Diwali.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae’r disgyblion yn gallu cofio’n gywir rhai ffeithiau, arferion a dathliadau’n gysylltiedig â’r ffydd Iddewig.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Wrth astudio Bwdhaeth ar hyn o bryd, mae’r disgyblion yn dod i wybod a deall yn dda sut a phaham mae dilynwyr Bwdha yn addoli, myfyrio a dathlu eu ffydd.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae’r disgyblion yn siarad am yr arteffactau sy’n cael eu harddangos ac yn ymchwilio am wybodaeth o rychwant o ffynonellau. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn datblygu gwybodaeth foddhaol o brif nodweddion crefyddau eraill megis Iddewiaeth.
*(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3, mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn o’r lleoedd addoli, llyfrau sanctaidd a’r prif arteffactau sy’n gysylltiedig ag Islam ac Iddewiaeth. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwybod am y ffordd mae Mwslimiaid yn dathlu ac addoli. *(Ysgol Llanfair DC)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o’r Beibl / Storiau’r Beibl *2 Ysgol*

- Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 yn gwybod fod y Beibl yn llyfr pwysig a’i fod yn cynnwys storiau am Iesu. Maen nhw’n cofio rhai o’r storiau mewn lluniau a geiriau. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae’r disgyblion yn ymestyn eu gwybodaeth o ddigwyddiadau a phersonoliaethau o’r Hen Destament a’r Testament Newydd. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

- Mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wybodaeth dda am y storiau Beiblaidd mwyaf cyfarwydd. Maen nhw'n deall eu harwyddocâd moesol mewn perthynas â'u profiadau personol. *(Ysgol Llanfair DC)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gysyniadau / Themâu Crefyddol *2 Ysgol*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod fod pobl yn mynychu'r Capel ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau ac yn deall fod canu a gweddïo'n nodweddion addoli. Mae'r disgyblion yn awgrymu rhesymau priodol am adrodd gweddiau 'diolch'. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn cysylltu'n dda â stori'n cael ei darllen ynghylch plant yn mynd ar goll. Maen nhw'n mynegi eu teimladau personol yn ddiffuant ac maen nhw hefyd yn ymwybodol y dylid ystyried teimladau pobl eraill. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 wybodaeth dda o bwysigrwydd y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan y rhai sy'n gofalu am yr henoed yn y gymuned. Maen nhw'n cynnig ansoddeiriau priodol i ddisgrifio gwaith pobl felly.
  *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn datblygu'u syniadau eu hunain yn dda wrth ymateb i'r pynciau gwahanol a astudiwyd. Maen nhw'n gwneud hynny'n effeithiol wrth ymateb i un o'r damhegion. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd lleoedd addoli ac yn ymweld â'r eglwys leol yn rheolaidd. *(Ysgol Llanfair DC)*

Cyfleoedd / y Gallu i Fynegi'u Syniadau Eu Hunain / Gwaith *2 Ysgol*

- Erbyn Cyfnod Allweddol 4 mae'r disgyblion mwy galluog yn datblygu'u barn eu hunain ynghylch credoau ac yn deall fod credoau crefyddol yn effeithio ar y ffordd mae credinwyr yn byw. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae myfyrwyr ôl 16 yn gallu cyffredinoli'u barn ac yn dechrau ffurfio credoau personol mewn ymateb i faterion personol a chymdeithasol. Maen nhw'n mynegi eu meddyliau ar lafar, a rhai yn eu gwaith ysgrifenedig, ynghylch eu teimladau personol ar faterion megis beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg yn eu cymuned. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn cysylltu'n dda â stori'n cael ei darllen ynghylch plant yn mynd ar goll. Maen nhw'n mynegi eu teimladau personol yn ddiffuant ac maen nhw hefyd yn ymwybodol y dylid ystyried teimladau pobl eraill. *(Ysgol Llanfair DC)*
- Mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn datblygu'u syniadau eu hunain yn dda wrth ymateb i'r pynciau gwahanol a astudiwyd. Maen nhw'n gwneud hynny'n effeithiol wrth ymateb i un o'r damhegion. *(Ysgol Llanfair DC)*

Dim Diffygion *1 Ysgol*

- Does dim diffygion sylweddol *(Ysgol Llanfair DC)*

Defnydd o Arteffactau i Wella Dysgu ac Addysgu *1 Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn siarad am yr arteffactau sydd yn cael eu harddangos ac yn chwilio am wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Cyfleoedd i Drafod Materion / Teimladau / Materion Moesol *1 Ysgol*

- Mae myfyrwyr ôl 16 yn gallu cyffredinoli'u barn ac yn dechrau ffurfio credoau personol mewn ymateb i faterion personol a chymdeithasol. Maen nhw'n mynegi eu meddyliau ar lafar, a rhai yn eu gwaith ysgrifenedig, ynghylch eu teimladau personol ar faterion megis beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg yn eu cymuned. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o Fywydau Enwog *1 Ysgol*

- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o rôl a chyfraniad arweinwyr a chymwynaswyr megis Mahatma Gandhi a Dr Barnardo. *(Ysgol Llanfair DC)*

Cyfleoedd i Ddatblygu / Mynegi Credoau Personol *1 Ysgol*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn datblygu dealltwriaeth dda o faterion cymdeithasol a moesol mewn cymdeithas. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae myfyrwyr ôl 16 yn gallu cyffredinoli'u barn ac yn dechrau ffurfio credoau personol mewn ymateb i faterion personol a chymdeithasol. Maen nhw'n mynegi eu meddyliau ar lafar, a rhai yn eu gwaith ysgrifenedig, ynghylch eu teimladau personol ar faterion megis beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg yn eu cymuned. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Ymwybyddiaeth o Effaith Cred ar Ffordd o Fyw *1 Ysgol*

- Erbyn Cyfnod Allweddol 4 mae'r disgyblion mwy galluog yn datblygu'u barn eu hunain ynghylch credoau ac yn deall fod credoau crefyddol yn effeithio ar y ffordd mae credinwyr yn byw. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Enghreifftiau o Gymru Gyfoes / Cwricwlwm Cymreig ac Addysg Grefyddol
*1 Ysgol*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwybod am y cyfraniadau a wnaed gan Dewi Sant a William Morgan i hanes Cristnogaeth yng Nghymru. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Cyfraniad Cyd Addoli i / Cysylltiadau Rhwng Cyd Addoli a'r Rhaglen Addysg Grefyddol *1 Ysgol*

- Mae cyd addoli'n gwneud cyfraniad positif i ddealltwriaeth y disgyblion o elfennau addysg grefyddol.
*(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

**SYLWADAU NEGYDDOL**

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynnwys Crefyddau ar wahân i Gristnogaeth
*1 Ysgol*

- Ym mhob cyfnod allweddol mae gwybodaeth y disgyblion o grefyddau sy'n wahanol i Gristnogaeth yn gyfyngedig. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Ansawdd / Amrywiaeth / Digonoldeb Gwaith Ysgrifenedig
*1 Ysgol*

- Yn y ddau gyfnod allweddol, ychydig o dystiolaeth sydd o ddisgyblion yn cofnodi'u gwaith. *(Ysgol Betws Gwerful Goch)*

Datblygu Sgiliau Allweddol Trwy Waith Addysg Grefyddol *1 Ysgol*

- Gwneir defnydd annigonol o TGCh i ymestyn gwybodaeth y disgyblion o grefyddau *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

**Agenda Eitem Rhif 6**

**Adroddiad ar Ddarparu Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Dinbych**

***Ar gyfer SACRE – Chwefror 2005***

**1. Cefndir:**

Ar ôl ymweliadau gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gyda phob ysgol yn ystod tymor yr hydref, cytunwyd adroddiad ar yr ymweliad a'r pynciau a'r canlyniadau gyda'r ysgol. Yn dilyn mae'r Nodweddion Da, Meysydd ar gyfer Datblygiad ac Argymhellion ar gyfer pob ysgol, a chrynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan.

**2. Darn o'r Ymweliadau Ysgol:**

**a) Ysgol Uwchradd Dinbych**

Nodweddion da

- Mae'r Cynllun Datblygu Adran yn adnabod targedau addas a realistig ar gyfer datblygiad.
- Ymrwymiad personol staff sy'n dysgu yn yr Adran.
- Y broses fonitro yn dechrau cael ei gweithredu.
- Cynllunio a datblygu addoli cyfunol.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Adnoddau – yn enwedig o ran llyfrynnau wedi eu hargraffu a rhai llyfrau testun
- Cyflymder a her mewn gwersi a thasgau
- Elfen ysbrydol addoli cyfunol.

Argymhellion

- Cynnal lefelau rhagorol ymrwymiad a chymhwysiad staff.
- Parhau gyda'r broses o fonitro a gwerthuso gwaith a'r cynllun.
- Cynyddu cyflymder a her o ran datblygu'r cynllun gwaith ac ar draws yr Adran yn gyffredinol.
- Parhau gyda datblygu addoliad cyfunol, yn enwedig o ran dimensiwn ysbrydol gweithredoedd o addoliad.

**b) Ysgol Bodfari**

Nodweddion da

- Mae gan y pwnc statws clir yn yr ysgol, ac mae'r gwaith cynllunio yn ffurfio'n dda ac yn datblygu
- Mae tystiolaeth o ystod dda o brofiadau a chyfleoedd i ddisgyblion, a theimlad o'u mwynhad hwy o'r pwnc hefyd.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Nid oedd diffygion arwyddocaol a nodwyd yn ystod yr ymweliad

Argymhellion

- Parhau i ddatblygu'r cynllun, gan gynnwys defnyddio'r Cyfarwyddyd Asesu a gyhoeddwyd gan SACRE a'r AALl
- Gwirio bod gofynion y Maes Llafur a Gytunwyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith, a sicrhau bod holl agweddau yn y pynciau yn berthnasol i AG.

**c) Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr**

Nodweddion da

- Mae'r dogfennau ar gyfer AG ac Addoli Cyfunol yn gyflawn, yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n briodol.
- Gridiau ar gyfer Straeon y Beibl a Phrofiadau Dysgu ar draws y cynllun gwaith ar gyfer AG
- Asesir gwaith disgyblion ar adegau priodol.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Nid oedd diffygion mewn unrhyw agweddau o'r dogfennau a'r arferion a arsylwyd, ac mae'r argymhellion isod yn fân newidiadau yn unig.

Argymhellion

- Cynnal yr arferion rhagorol a welwyd mewn AG ac Addoli Cyfunol.
- Ymestyn cyfranogiad ymwelwyr o'r gymuned ffydd leol, a ffydd eraill, mewn gwaith AG ble bynnag y bo modd ac os yn ymarferol.
- Sicrhau bod y Maes Llafur a Gytunwyd (gan ddefnyddio'r grid i'w anfon) yn cael ei gynnwys yn llwyr ac ystyried rhaglen amrywiol ar gyfer y Nadolig ar draws y cylch gwaith (awgrymiadau i'w hanfon i'r ysgol)

**ch) Ysgol Cefn Meiriadog**

Nodweddion da

- Cynlluniau ar gyfer adolygu'r cynllun gwaith.
- Agweddau amrywiol tuag at ddysgu ac addysgu mewn AG a ddisgrifiwyd
- Y cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd ar gyfer AG ac addoli cyfunol
- Y patrwm cyffredinol ar gyfer addoli cyfunol a ddarparwyd.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Yn yr ymweliad monitro byr hwn, ni welwyd unrhyw ddiffygion pwysig.

Argymhellion

- Parhau gyda'r camau i adolygu'r cynllun gwaith ac ymestyn yr adnoddau ar ei gyfer
- Cynnal y cysylltiadau cryfion gyda'r gymuned ffydd.

**d) Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy**

Nodweddion da

- Y dalennau cynllunio a ddefnyddir ar gyfer y cynllun gwaith - maent yn delio gyda'r cynnwys priodol ac yn cynnig cyfarwyddyd i athrawon
- Y rhaglen dair blynedd ar gyfer datblygu adnoddau ar gyfer y pwnc.
- Y ddeddf o addoliad cyfunol ar gyfer y cynhaeaf a gynhaliwyd yn eglwys y plwyf
- Y cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd Gristnogol.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Yn yr ymweliad byr a gafwyd, ni welwyd unrhyw ddiffygion difrifol. (Awgrymwyd rhai mân newidiadau i agweddau o bynciau o fewn y cynllun gwaith).

Argymhellion

- Cynnal cysylltiadau positif gydag a chyfraniadau'r gymuned ffydd leol tuag at waith AG ac SMSC yn yr ysgol.
- Parhau gyda'r arferion presennol a'r patrwm o addoliad cyfunol.
- Parhau i wella a datblygu'r cynllun gwaith, gan gynnwys y rhaglen ddiweddar ar gyfer ymestyn adnoddau o fewn y pwnc.

**dd) Ysgol Fron Goch, Dinbych**

Nodweddion da

- Y cynlluniau i ddelio gyda'r diffygion a nodwyd yn yr Archwiliad.
- Y cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd leol, a'r profiadau positif a geir trwy'r cysylltiad hwnnw.
- Brwdfrydedd y cydlynydd a benodwyd yn ddiweddar ar gyfer y pwnc.
- Y cynllun amlinell sy'n dangos tair elfen i'r gwaith yn glir a syml.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Mae'r cynllun mewn ffurf amlinell yn unig ar hyn o bryd, ond caiff ei ddatblygu wrth ei dreialu
- Angen mwy o adnoddau – mae'r ysgol wedi nodi hyn yn y cynllun gweithredu.

Argymhellion

- Dilyn y cynllun gweithredu a baratowyd.
- Datblygu'r cynllun gwaith o gynllun amlinell yn ddogfen fwy sylweddol, gan ddefnyddio'r Cynllun QCA neu gynllun Nelson am syniadau.
- Ymweld ag ysgol gyda chynllun clir da (awgrym a wnaed i'r pennaeth).
- Ymweliad arall gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn nhymor yr haf neu yn gynnar yn yr hydref i weld y datblygiadau.

**e) Ysgol Henllan**

Nodweddion da

- Mae'r Cynllun Gwaith yn ei le ac yn cael ei werthuso wrth gael ei gyflwyno.
- Ystod briodol o weithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2
- Cynllun asesiad yn y pynciau Sylfaen yn cynnwys AG mewn cylch dwy flynedd.
- Mae'r patrwm o addoliad cyfunol yn sicr a phriodol.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Ar sail yr ymweliad monitro byr, dim ond dau ddiffyg a welwyd:
- Gwaith a gofnodwyd yng Nghyfnod Allweddol 1 yn gyfyngedig
- Yr angen i roddi cyfleoedd i ddisgyblion gofnodi pynciau a dysgu, ac ymatebion personol yn dilyn trafodaethau yn ystod AG.

Argymhellion

- Datblygu ystod o waith a gofnodwyd yng Nghyfnod Allweddol 1
- Cynnwys cyfleoedd ar gyfer trafodaethau i'w hystyried ac i ddisgyblion gofnodi pethau a ddysgwyd o ganlyniad i'r syniadau a'r persbectifau a rannwyd
- Gwerthuso i ba raddau y mae'r lefelau Cynnal yn adlewyrchu yn briodol rhai'r Maes Llafur a Gytunwyd yn Sir Ddinbych.
- Ystyried agweddau gwahanol i'r Nadolig ym mhob dosbarth er mwyn cyflymu cynnydd a datblygu dealltwriaeth.

**f) Ysgol Heulfre, Dinbych**

Nodweddion da

- Mae'r cynllun gwaith yn dangos strwythur da, yn cynnig cyfarwyddyd clir a manwl
- Mae'r broses fonitro a gychwynnwyd yn ddiweddar, a rhannu gwybodaeth wedi hynny, yn arfer i'w chanmol.
- Mae'r drefn newydd ar Asesu, ar y cyd gyda'r pynciau sylfaen eraill, yn ddatblygiad da. (Hysbyswyd yr ysgol o'r OAM ACCAC i'w cyhoeddi yn y man).

- Defnydd da ac effeithiol o ymweliadau a phrofiadau ymarferol yn y cynllun AG, yn enwedig mewn rhai grwpiau blwyddyn.
- Mae darpariaeth addoliad gyfunol yn sicr a manteisiol.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Arolygu'r ystod o weithgareddau mewn rhai grwpiau blwyddyn, i sicrhau bod mwy o gyfle ar gyfer ysgrifennu rhydd a mynegiant personol syniadau/barn, a gweithgareddau mwy ymarferol mewn rhai pynciau
- Ehangu'r cyfleoedd ac enghreifftiau ar gyfer Curriculum Cymreig mewn AG er mwyn addasu'r cynllun gwaith rhagorol.

Argymhellion

- Parhau gyda'r drefn fonitro ac asesu a gyflwynwyd yn ddiweddar.
- Addasu'r cynllun gwaith yn yr ychydig feysydd a grybwyllwyd uchod ac fel y trafodwyd gyda'r ysgol, yn enwedig gan gynnwys mwy o'r gymuned ffydd mewn gwaith AG, ac adnabod yn y cynllun y Sgiliau Allweddol a ddatblygwyd yn yr arfer presennol
- Cynnal y ddarpariaeth a'r safon ar gyfer addoliad cyfunol.

ff) **Ysgol Wirfoddol Llanelwy**

(Manylion i'w cyflwyno – ymweliad ar 20/01/05)

**g) Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych**

*(Manylion i'w cyflwyno – ymweliad ar 24/01/05)*

**ng) Ysgol Tremeirchion**

Nodweddion da

- Darpariaeth a chynlluniau ar gyfer addoliad cyfunol, cyfranogiad y gymuned ffydd ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- Amgylchfyd teuluol yr ysgol, a'r effaith bositif ar ddarpariaeth ar gyfer addoliad cyfunol, a hefyd ar gyfer AG.
- Yr ystod o weithgareddau a gynhwyswyd yn y gwaith AG.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Dim strwythur ffurfiol ar gyfer asesu llwyddiant disgyblion mewn AG ar hyn o bryd
- Cyfle cyfyngedig i ddisgyblion fynegi eu barn eu hunain neu gofnodi problemau, ymatebion i drafodaethau.

Argymhellion

- Cynnal yr arferion da o ran addoliad gyfunol.
- Gwella cyfleoedd i ddisgyblion gofnodi eu meddylfryd eu hunain, ymatebion i drafodaethau a hefyd gweithgareddau sy'n gofyn am empathi
- Ystyried y Cyfarwyddyd ar Asesiad mewn AG, a datblygu dull syml o gofnodi llwyddiant, ynghyd â defnyddio Deunyddiau Asesi Dewisol gan ACCAC.
- Wrth arolygu'r cynllun gwaith, gwirio unrhyw ailadroddiad posibl o gynnwys, a dangos mwy o fanylion o ran pynciau yn y Maes Llafur a Gytunwyd.

**h) Ysgol Fabanod y Parc, Dinbych**

Nodweddion da

- Awyrgylch gwych ac agwedd tuag at weithredoedd o addoliad cyfunol.
- Statws a chyflwyniad AG yn y cwricwlwm.
- Portffolio gwaith a sylwadau a gynhwyswyd sy'n dangos y safonau a'r profiadau.

Meysydd ar gyfer datblygiad

- Ni welwyd unrhyw ddiffygion difrifol yn ystod yr ymweliad byr hwn.

Argymhellion

- Cynnal y ddarpariaeth ragorol o ran addoliad gyfunol.
- Parhau gyda'r arferion da sy'n amlwg yn y gwaith AG.

## 3. Sylwadau Cyffredinol

Nodweddion da

Mae llawer i'w ddathlu o ran y nodweddion da yn yr ysgolion yn y consortiwm, yn benodol:

- Ystod profiadau a chyfleoedd dysgu a gynigir i ddisgyblion.
- Monitro cynnydd disgyblion mewn nifer o ysgolion
- Agweddau cynllunio mewn rhai ysgolion.
- Trefniadau ar gyfer asesu cynnydd disgyblion a llwyddiant mewn rhai ysgolion
- Ymrwymiad ac ymroddiad y staff dan sylw neu'r rhai sy’n gyfrifol am AG.
- Statws y pwnc yng nghwricwlwm yr ysgol.
- Cynlluniau datblygu priodol sy'n bodoli ar gyfer y pwnc.

- Y cysylltiadau gyda'r cymunedau ffydd ar gyfer AG ac addoliad cyfunol mewn nifer o ysgolion.
- Patrwm sicr a darpariaeth ar gyfer addoliad cyfunol mewn nifer o ysgolion.

Meysydd ar gyfer datblygiad

Nid oedd gan bump o'r ysgolion unrhyw feysydd pwysig ar gyfer datblygiad, sydd werth eu nodi; ynghyd â'r ffaith mai dim ond un maes arall o ddatblygiad a nodwyd mewn mwy nag un ysgol – pwnc yn ymwneud ag adnoddau. Roedd y rhan fwyaf o'r lleill yn gymharol hawdd i ddelio gyda hwy.

Argymhellion

Mewn nifer o ffyrdd, roedd yr argymhellion yn adlewyrchu unigolrwydd y meysydd ar gyfer datblygiad. Fodd bynnag, mae'n dda nodi bod un-ar-ddeg o argymhellion gwahanol yn cyfeirio at gynnal arferion da neu barhau gydag agweddau a oedd yn dda mewn rhyw ffordd. Yr unig argymhellion a ymddangosodd fwy nag unwaith oedd un a oedd yn gysylltiedig gyda gwirio cynhwysiad y Maes Llafur a Gytunwyd – ond weithiau am resymau gwahanol. Mewn perthynas ag addoliad cyfunol, roedd yn nodedig bod pedair ysgol yn cael eu hargymell i barhau gyda'r ddarpariaeth dda bresennol, ac mewn rhai achosion yn arferion rhagorol.

Safonau

Nid oedd yn bosibl barnu ar safonau ym mhob ysgol, ond pan roedd hyn yn wir roedd yr ysgolion yn hyderus yn eu darpariaeth ac yn fodlon gyda'r lefel gwaith a gyflwynwyd gan ddisgyblion. Yng ngweddill yr ysgolion, cadarnhawyd bod gan dair safonau da (ac un yn dda iawn) a bod tair yn foddhaol.